Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Nebo
Nebo
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6EE

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Nebo

Mae Ysgol Gynradd Nebo rhyw dair milltir o Benygroes yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae 23 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 3 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn ddau dosbarth oedran cymysg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae tua 58% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 28% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2009 ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae bron pob un, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog tu mewn a thu allan i'r ysgol. Maent yn dangos agwedd bositif iawn tuag at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn arbennig o dda.

Mae'r staff wedi sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin dysgu llwyddiannus, ac maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n sbarduno disgyblion i weithio'n galed. Mae ansawdd yr ymyrraeth a'r gefnogaeth yn effeithiol iawn ac mae pob disgybl yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm

A2 Datblygu ymhellach yr ardal allanol ar gyfer y cyfnod sylfaen

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau,er enghraifft wrth drafod ac egluro sut i wella draenog sâl. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith, er enghraifft wrth drafod eu hymweliad pleserus i winllan leol. Mae gan y rhan fwyaf iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder tuag at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhugldr ac yn trafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn darllen gyda chywirdeb a rhugldr yn y Gymraeg a Saesneg ac yn trafod eu hoff lyfrau'n aeddfed. Defnyddiant eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau diddorol, er enghraifft i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol am eu gwyliau haf a pharti pen-blwydd. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Maent yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae'r portread o ferch deg oed yn dangos dealltwriaeth dda o ysgrifennu yn y person cyntaf a'r trydydd person, a defnydd effeithiol o ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae bron pob un yn defnyddio rheolau adio a thynnu yn effeithiol, er enghraifft wrth drefnu parti a choginio cacen pen-blwydd i dedi, cofnodi gwerthiant lampau Diva a chofnodi gwahanol fathau o dai yn Nebo. Mae bron pob

disgybl yn dweud yr amser yn gywir gan ddefnyddio chwarter a hanner awr ar y cloc. Maent yn mesur a defnyddio unedau safonol ac yn datrys problemau syml gan ddefnyddio offer mesur yn fedrus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd. Gall bron pob un amcangyfrif, a mesur onglau a chyfrif canrannau, gan fynegi'r rhain fel ffracsiynau yn gywir. Maent yn cymhwyso'u medrau'n dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio dull grid i luosi yn dilyn ymweliad â gwinllan leol, a gweithgareddau siâp a gofod yn y capel lleol. Mae'r medrau a gyflwynir mewn gwersi mathemateg yn cael eu hymarfer yn llwyddiannus mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd, fel creu mantolen y 'Clwb Smwddis' sy'n cael ei gofnodi'n fanwl a chywir ar daenlen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio TGCh yn hyderus ac yn annibynnol at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn effeithiol i gofnodi gwybodaeth am daith i'r traeth. Maent yn defnyddio meddalwedd yn hyderus i greu graffiau bloc, er enghraifft i gofnodi uchder ffa sy'n tyfu o fewn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf â lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r bysellfwrdd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh yn dda. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy ddefnyddio amrywiaeth dda o raglenni. Er enghraifft, erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd i lunio onglau cywir drwy ddefnyddio rhaglenni yn effeithiol. Maent yn prosesu geiriau yn fedrus wrth ysgrifennu llythyron diolch yn dilyn ymweliad â phlasty lleol. Mae bron pob disgybl yn hyderus wrth ymchwilio ar y we am wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r themâu ac maent yn llwyddo i greu codau QR er mwyn cael mynediad cyflym i'r gwaith. Mae dealltwriaeth y disgyblion ar draws yr ysgol o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan bron pob disgybl ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu ac mae ganddynt agwedd iach tuag at eu cyfoedion, oedolion a'u bro. Maent yn gwrtais ac yn meithrin perthnasoedd cryf gydag aelodau staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn frwdfrydig. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu llwyddiant yn eu tasgau. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac maent yn cyfrannu'n bositif tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau mynychu.

Mae bron pob un disgybl yn dangos lefel uchel o barch. Maent yn arddangos ymwybyddiaeth dda o oddefgarwch, cynaliadwyedd a hawliau plant. Mae'r disgyblion yn groesawgar ac yn foesgar i ymwelwyr ac yn barod i rannu eu profiadau am yr ysgol a'r gymuned. Mae hon yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch ddysgu effeithiol iawn sy'n bodoli.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog tu mewn a thu allan i'r ysgol. Maent yn dangos agwedd bositif iawn tuag at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn arbennig o dda. Mae'r disgyblion hŷn, wrth drefnu a gweinyddu'r 'clwb smwddis a chebabs ffrwythau' bob dydd Gwener, yn llwyddo i annog y disgyblion i fwyta'n iach. Mae'r cyfleoedd cyson i gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol, gweithgareddau 'Dal i Fynd' a theithiau cerdded egnïol yn sicrhau dealltwriaeth gadarn y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae bron pob disgybl yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt fynegi eu barn ynglŷn ag agweddau pwysig ar waith yr ysgol, ac i gyfrannu at eu lles eu hunain a lles eu cyfoedion. Maent yn gwneud hyn yn effeithiol drwy gyfrwng y cynghorau amrywiol, sy'n cynnwys y 'Grŵp Gwyrdd' ar gyfer gwarchod yr amgylchedd ac arbed ynni a'r cyngor ysgol sydd wedi creu rhaglen dymhorol i gefnogi elusennau, a chreu swydd ddisgrifiadau i'r 'bydis buarth'.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn. O ganlyniad, maent yn cyflawni safonau da. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n sbarduno disgyblion i weithio'n galed.

Mae'r cynlluniau gwaith yn ymgorffori gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddatblygu eu medrau. Mae darpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a rheolaidd er mwyn datblygu dealltwriaeth o'u hardal a diwylliant Cymru yn drylwyr. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliadau cyson i ganolfannau hanesyddol a theithiau cerdded lleol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd Cymraeg, rhifedd a TGCh mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu Saesneg y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog a gweithgareddau'n llifo'n dda. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau ymarferol. Mae'r tasgau wedi eu cynllunio'n ofalus ar gyfer yr ystod oedran a'r gallu sydd yn y dosbarthiadau. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol, gyda phob aelod o staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Ceir enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Fe anogir y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r pennaeth a'r athrawon yn defnyddio system olrhain cynnydd yn effeithiol iawn. Maent yn dadansoddi asesiadau athrawon a deilliannau profion cenedlaethol yn dda i fesur cynnydd disgyblion er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu manwl ar ffurf proffil taflen unigol. Mae ansawdd yr ymyrraeth a'r gefnogaeth yn effeithiol iawn ac mae pob disgybl yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn sydd yn llwyddo i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn helpu rhieni i gefnogi eu plant yn effeithiol drwy nosweithiau agored cyson a sesiynau hyfforddiant am ddiogelwch ar y we. Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas gynhyrchiol iawn gyda rhieni. Mae gan yr ysgol ddulliau cyfathrebu effeithiol iawn sydd yn galluogi rhieni i gefnogi eu plant yn dda a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu eu plentyn.

Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu moesol, lle cânt gyfleoedd i werthfawrogi a dathlu'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u cyfoedion.

Trwy amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr i hybu iechyd a lles, mae'r ysgol yn darparu'n dda i sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r holl ddisgyblion leisio barn ac i ddylanwadu ar elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy gynnig syniadau i'r cyngor ysgol yn y blychau gwrando a'r blychau syniadau.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, sef 'gweithio gyda'n gilydd', ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau creadigol a pherfformio'r disgyblion yn dda. Mae hyn yn cynnwys gwaith arlunio yn arddull Kyffin Williams a chyfleoedd i gystadlu yn eisteddfod yr Urdd.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli'r safle a diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn y mae'n eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol gan hybu datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus iawn. Mae ganddi rôl allweddol mewn hyrwyddo cydweithio pwrpasol a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio ar-y-cyd gydag ysgolion lleol i ddiwygio'u cynlluniau gwaith i ymateb i'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynllunio, addysgu a chynnal partneriaethau gwerthfawr.

Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n hynod effeithiol a chydwybodol. Maent yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y profiadau eang, ysgogol a ddarperir er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol unigolion a chodi safon gwaith yr holl ddisgyblion.

Mae gan holl aelodau’r staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Maent yn defnyddio’r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu trylwyr ac eang, fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella i’w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol. Mae’r ysgol yn casglu barn rhieni a disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid gyfle amlwg i wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau o ran gwella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a chynllun datblygu’r ysgol sy’n sicrhau ei fod yn offeryn defnyddiol ac effeithiol. Mae’r staff yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiad trylwyr mewn perthynas â blaenoriaethau’r ysgol; mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i roi sylw teilwng i wella safonau a lles y disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn cyfarfod gyda’r pennaeth i gyd-ddadansoddi data cyn cyflwyno adroddiad i weddill y llywodraethwyr. Maent wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr i ddatblygu eu medrau o werthuso gwaith y disgyblion drwy edrych ar eu llyfrau. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i gyfrannu at osod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae eu dealltwriaeth o sut mae’r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg yn gadarn. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli’n dda er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o’r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw’r ardal allanol ar gyfer y cyfnod sylfaen wedi ei datblygu i’w llawn botensial.

Mae gwariant yn cysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio’n llawn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae defnydd effeithiol o’r grant datblygu disgyblion i gynnal yr ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd sylweddol yn safonau disgyblion, yn arbennig wrth wella eu medrau darllen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2017